

# Polisi Preifatrwydd IM

## Yr Arolwg hwn gan Ipsos MORI a'ch data personol

- Arolwg Cenedlaethol ar Dystiolaeth o Gydraddoldeb Prifysgol Manceinion: Cofnodi bywydau lleiafrifoedd crefyddol ac ethnig mewn cyfnod o argyfwng (20-089809-01).
- Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio pwy ydym, y data personol a gasglwn, sut rydym yn ei ddefnyddio, gyda phwy fyddwn yn rhannu'r data, a beth yw'ch hawliau cyfreithiol. Mae'n cwmpasu'r arolwg recriwtio cryno a'r prif arolwg hirach.
- Cyfeiriwch at ddalen wybodaeth cyfranogiad a pholisi preifatrwydd Prifysgol Manceinion am fanylion sut byddant yn delio ag unrhyw ddata personol y byddwch yn cydsynio i'w rannu gyda nhw. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar dudalen help yr arolwg: [evensurveyinfo@ipsos-mori.com](mailto:evensurveyinfo@ipsos-mori.com). Os ydych chi'n cwblhau'r arolwg dros y ffôn, gallwch ofyn i'r wybodaeth gael ei darllen i chi cyn cychwyn yr arolwg.

## Ynglŷn ag Ipsos MORI

- Mae Market & Opinion Research International Limited yn asiantaeth ymchwil arbenigol wedi ei lleoli yn y Deyrnas Unedig, sy'n cael ei hadnabod fel "Ipsos MORI". Mae Ipsos MORI yn rhan o grŵp o gwmnïau byd-eang Ipsos, ac yn aelod o'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Oherwydd hynny rydym yn cadw at God Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

## Ynglŷn â Phrifysgol Manceinion

- Sefydlwyd Prifysgol Manceinion yn 1824 a dyma brifysgol un safle mwyaf Prydain. Yn ogystal â chynig detholiad helaeth o raglenni gradd ac opsiynau, mae'r Brifysgol yn cynnal nifer o raglenni ymchwil o statws cenedlaethol a rhyngwladol i hysbysu polisi cyhoeddus.

## Beth yw sail gyfreithiol Ipsos MORI a Phrifysgol Manceinion am brosesu eich data personol?

- Mae'n ofynnol i Ipsos MORI a Phrifysgol Manceinion ("y cleient") gael sail gyfreithiol i brosesu eich data personol.
  - Sail gyfreithiol Ipsos MORI dros brosesu yw eich caniatâd i gymryd rhan yn yr arolwg ymchwil hwn a'ch caniatâd i basio'ch data personol ymlaen i'r cleient. Os hoffech dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, gweler yr adran isod sy'n trafod 'Eich Hawliau'.
  - Sail gyfreithiol Prifysgol Manceinion dros brosesu eich data yw lles y cyhoedd (Erthygl 6 y GDPR). Golyga hyn y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan ymchwilwyr i gynhyrchu tystiolaeth i helpu gwneud newidiadau mewn cymdeithas er gwell.

## **Sut fydd Ipsos MORI yn defnyddio unrhyw ddata personol gan gynnwys ymatebion i'r arolwg a ddarperir gennych?**

- Yn gyntaf, bydd Ipsos MORI yn cadw eich data personol a'ch ymatebion yn gwbl gyfrinachol yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn, a fyddwch chi ddim ond yn adnabyddadwy i Brifysgol Manceinion os byddwch yn rhoi caniatâd (fe ofynnir i chi os ydych chi'n hapus i wneud hyn ar ddiwedd yr arolwg). Yr unig eithriad i hyn yw os byddwch yn datgelu gwybodaeth yn ystod cyfweiliad ffôn neu trwy anfon e-bost at ein blwch post i nodi eich bod yn bwriadu peri niwed i chi'ch hun neu eraill; fe drafodir hyn gyda chi ac efallai y bydd angen cymryd camau pellach, fel cysylltu â'r heddlu, ambiwlans neu wasanaethau cymdeithasol.
- Mae ymateb i'r arolwg recriwtio a'r prif arolwg yn hollol wirfoddol ac fe roddir unrhyw atebion gyda'ch caniatâd, ac mae gennych chi'r hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.
- **Arolwg recriwtio:**
  - Ar ddechrau'r arolwg recriwtio, fe'ch holir a ydych yn cydsynio i ddarparu'r data personol canlynol: oed, rhyw, lleoliad, ethnigrwydd a chrefydd. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddibenion ymchwil yn unig ac ni fydd yn cael ei drosglwyddo i unrhyw un tu allan i Ipsos MORI a Phrifysgol Manceinion.
  - Os ydych chi'n cymryd rhan ar-lein ac yn gymwys i barhau ar y prif arolwg, byddwn yn gofyn, gyda'ch caniatâd/cydsyniad, am gyfeiriad e-bost i anfon dolenni i'r arolwg atoch. Bydd eich manylion cyswllt a ddarperir yn y cwestiwn hwn yn cael eu defnyddio i'r diben hwn yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhannu gydag unrhyw un tu allan i Ipsos MORI.
- **Prif arolwg:**
  - Ar ddechrau'r prif arolwg, fe'ch holir eto am eich cydsyniad i ddarparu'r data personol canlynol: rhyw, oed, ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, gwlad enedigol a chod post. Tuag at ddiwedd y prif arolwg byddwn hefyd yn gofyn, gyda'ch caniatâd/cydsyniad, am fanylion cyswllt er mwyn i ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion allu eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau yn y dyfodol trwy e-bost, post neu neges destun. Bydd eich atebion i'r arolwg a'ch manylion cyswllt yn cael eu defnyddio i ddibenion ymchwil yn unig ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i unrhyw un tu allan i Ipsos MORI a Phrifysgol Manceinion.
  - Ar ddiwedd yr arolwg, byddwn yn gofyn am fanylion cyswllt er mwyn i ni allu anfon cerdyn tocyn anrheg yn ddiolch i chi. Bydd eich manylion cyswllt a ddarperir yn y cwestiwn hwn yn cael eu defnyddio i'r diben hwn yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhannu gydag unrhyw un tu allan i Ipsos MORI.
  - Os na wnaethoch chi gymryd rhan yn yr arolwg recriwtio, efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi am gyfeiriad e-bost i anfon dolenni atgyfeirio i'r arolwg ar gyfer eich ffrindiau a theulu. Bydd eich manylion cyswllt a ddarperir yn y cwestiwn hwn yn cael eu defnyddio i'r diben hwn yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhannu gydag unrhyw un tu allan i Ipsos MORI.

## **Sut fydd Ipsos MORI yn sicrhau bod fy ngwybodaeth bersonol yn ddiogel?**

- Mae Ipsos MORI yn cymryd ei gyfrifoldebau ynghylch diogelwch gwybodaeth o ddifrif ac yn gweithredu rhagofalon amrywiol i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu rhag cael ei cholli, dwyn neu gamddefnyddio. Mae rhagofalon diogelwch yn cynnwys diogelwch ffisegol priodol ar gyfer swyddfeydd a mynediad rheoledig a chyfyngedig i systemau cyfrifiadurol.
- Bydd eich manylion cyswllt ac atebion unigol yn cael eu storio ar wahân yn defnyddio ein gweinyddwyr data diogel sydd wedi eu hamgryptio, a dim ond ymchwilwyr penodedig yn Ipsos MORI sydd â mynediad i'ch data.
- Mae Ipsos MORI yn cynnal archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd o'i reolaethau diogelwch gwybodaeth ac arferion gweithio, ac fe'i achredir hyd at y Safon Ryngwladol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth, ISO 27001.

## **Am faint o amser y bydd Ipsos MORI yn cadw fy nata personol ac ymatebion adnabyddadwy?**

- Bydd Ipsos MORI yn cadw eich data mewn modd all eich adnabod cyn belled â bod hynny'n angenrheidiol i gynnal y prosiect ymchwil a'r canfyddiadau yn unig. Ar gyfer y prosiect hwn, golyga hyn:
  - Bydd manylion cyswllt a gesglir i'r diben o anfon dolenni arolwg a thocynnau anrheg yn cael eu cadw gan Ipsos MORI hyd at 31 Gorffennaf 2021 yn unig ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i unrhyw un tu allan i Ipsos MORI.
  - Bydd manylion cyswllt a gesglir i'r diben o'ch gwahodd i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol yn cael eu cadw gan Ipsos MORI hyd at 31 Gorffennaf 2021 yn unig unwaith y bydd y data wedi ei drosglwyddo i'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion.
- Cyfeiriwch at ddalen wybodaeth cyfranogiad a pholisi preifatrwydd Prifysgol Manceinion am fanylion am ba hyd y byddant yn cadw unrhyw ddata personol y byddwch yn cydsynio i'w rannu.

## **Eich hawliau.**

- Mae gennych yr hawl i gyrchu'ch data personol o fewn y cyfnod cyfyngedig mae Ipsos MORI yn eu dal. Gallwch wrthwynebu i brosesu atebion arolwg a ddarparwch ar unrhyw adeg cyn bo'r data yn cael ei brosesu i'w gyflenwi gan Ipsos MORI i Brifysgol Manceinion ar 17 Mai 2021.
- Os ydych am gysylltu â Phrifysgol Manceinion ynghylch y data maent yn eu dal amdanoch, gweler eu manylion cyswllt isod.
- Mae darparu ymatebion i'r arolwg hwn yn gwbl wirfoddol ac fe'i gwneir â'ch caniatâd. Mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl.
- Hefyd mae gennych yr hawl i unioni unrhyw ddata personol anghywir neu wedi'u dyddio amdanoch y gallem eu dal.
- Os ydych am arfer eich hawliau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio manylion cyswllt Ipsos MORI isod.

- Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), os oes gennych bryderon ynghylch sut rydym wedi prosesu eich data personol. Gallwch ganfod manylion ynghylch sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/global/contact-us/> neu drwy anfon e-bost at: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk).

### **Ble fydd fy nata personol yn cael ei gadw a'i brosesu?**

- Bydd eich holl ddata personol a ddefnyddir ac a gesglir ar gyfer yr arolwg hwn yn cael ei storio a phrosesu yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

### **Sut alla i gysylltu ag Ipsos MORI a Phrifysgol Manceinion ynghylch yr arolwg hwn ac/neu fy nata personol?**

- **Cysylltu ag Ipsos MORI:**

**E-bost:** [compliance@ipsos.com](mailto:compliance@ipsos.com) gyda 20-089809-01 CoDE University of Manchester EVENS survey yn llinell pwnc yr e-bost

**Post:** 20-089809-01 CoDE University of Manchester EVENS survey  
Swyddog Diogelu Data  
Yr Adran Gydymffurfiaeth  
Market & Opinion Research International Limited  
3 Thomas More Square  
Llundain E1W 1YW  
Y Deyrnas Unedig

- **Cysylltu gyda Phrifysgol Manceinion:**

**E-bost:** [dataprotection@manchester.ac.uk](mailto:dataprotection@manchester.ac.uk)

**Post:** Evidence for Equality National Survey (EVENS)  
Swyddog Diogelu Data  
The Information Governance Office  
Christie Building  
The University of Manchester  
Oxford Road  
M13 9PL  
Y Deyrnas Unedig